

Diweddariadaur wythnos o WCVA

10 Mehefin 2019

Helo, a chroeso i gylchlythyr wythnos hon.

Rydym yn falch iawn o gyhoeddi'r prosiectau amgylcheddol llwyddiannus sy'n derbyn grantiau o ail rownd y Cynllun Cymunedau Treth Gwarediadau Tirlenwi. Rydym wedi cael ceisiadau hynod ddiddorol eleni, ac roedd yn anodd dewis yr enillwyr - [gweler y rhestr lawn ar ein gwefan.](#)

Wythnos diwethaf oedd Wythnos Gwirfoddolwyr, felly gwnaethom lunio darn cyflym yn disgrifio ein [diwrnod arbennig yn gwirfoddoli yn warws Tenovus.](#) Gobeithiwn y bydd yn ysbrydoli elusennau eraill i feddwl am sefydlu eu cynlluniau gwirfoddoli gweithwyr eu hunain!

Diolch am ddarllen, gweld chi eto wythnos nesaf.

Cyllid diweddaraf

Rheolydd Codi Arian yn datgelu Cod Ymarfer Codi Arian newydd sbon

Mae'r Rheolydd Codi Arian wedi lansio Cod Ymarfer Codi Arian amgen a newydd heddiw a fydd yn cael ei roi ar waith ym mis Hydref 2019.

Youth Endowment Fund

Hyd at 2 flynedd o gyllid ar gael i gefnogi ymyriadau a phartneriaethau cymunedol yn gweithio gyda phlant mewn perryg o gael eu tynnu at drosedd a thrais.

A B Charitable Trust

Mae cyllid o £10,000 - £20,000 ar gael i gefnogi elusennau sydd wedi amddiffyn hawliau dynol a hybu parch at unigolion bregus beth bynnag yw eu hamgylchiadau.

Newyddion gwirfoddoli

Cleifion yn gwirfoddoli i helpu cleifion

Mae Gwirfoddolwyr ar y Rhaglen Addysg i Gleifion yn dysgu sgiliau hunan-reoli i wella bywydau'r rhai sy'n byw gyda chyflyrau corfforol cronig a chyflyrau iechyd meddwl.

Gwirfoddoli staff WCVA gyda Tenovus

Darllen am ein diwrnod o gwirfoddoli yn warws Tenovus!

Cyhoeddi enillwyr rownd 2 Grantiau Treth Tirlenwi

Rydym yn falch iawn o gyhoeddi'r prosiectau amgylcheddol llwyddiannus sy'n derbyn grantiau o ail rownd y Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi (LDTCS).

Hyfforddiant a digwyddiadau

GDPR – Blwyddyn yn Ddiweddarach gweminar #databwrddgwaith

Daeth y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol (GDPR) i rym ar 25 Mai 2018, ei nod yw diogelu unigolion yn fwy ac felly ceir mwy o rwymedigaethau preifatrwydd i fudiadau.

[26 Mehefin 2019, 14:00 - 15:00](#)

Cynhadledd iechyd meddwl yn y gweithle yn dod i Aberystwyth

Cwmni cyfreithiol ac ymgynghorwyr cymorth busnes yn cydweithio i gyflwyno cynhadledd ar wella iechyd meddwl yn y gweithle.

[10 Gorffennaf, Aberystwyth](#)

Be all cyfiawnder economaidd ei olygu i Gymru?

Rydym yn cydweithio gyda'r IPPR ar ddiwyddiad i chwilio'r llwybr i gyfiawnder economaidd yng Nghymru.

[18 Gorffennaf, Caerdydd](#)

Seminar Brecwast Cyflogaeth yng Nghonwy

Seminar i drafod amrywiaeth a chyfraith cyflogaeth yn dod i Gonwy

[12 Mehefin, Conwy](#)

Mudiad newydd hawliau merched yng Nghymru

Ymunwch â Plan International UK wrth i nhw lansio Champions of Wales, mudiad newydd hawliau merched i gyflawni cydraddoldeb rhywiol yng Nghymru.

[12 Mehefin, Caerdydd](#)

Trafodaeth Genedlaethol 'Cymru Ein Dyfodol'

Mae Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol yn lansio trafodaeth genedlaethol 'Cymru Ein Dyfodol' gyda phedwar digwyddiad ymgysylltu ar hyd a lled y wlad.

Polisi a prosiectau

Gallwch nawr ymgeisio am Grant Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae'r cylch ymgeisio ar gyfer Grant Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i'r Trydydd Sector 2020-2023 – Cam 2 wedi agor.

Adroddiad yn canfod beth mae pobl ei angen mewn argyfwng

Mae'r British Red Cross wedi cyhoeddi ymchwil wedi ei selio ar ddarganfyddiadau gan bobl gyda phrofiad uniongyrchol o ddigwyddiadau mawr ac argyfyngau, yn cynnwys tân, llifogydd ac ymosodiadau terfysgol.